# Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

**Heol Roseland, Waunarlwydd, Abertawe, SA5 4ST**

Ffôn / Tel: **01792 874399**
E-bost / E-mail: **ygg.loginfach@swansea-edunet.gov.uk**
Gwefan / Website: **www. www.yloginfach.co.uk**
Trydar / Twitter: **@LoginFach**


17/4/23

Annwyl Riant / Warchodwr,

Mae'n bleser cyflwyno fy llythyr cyntaf atoch fel pennaeth newydd Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach. Bydd yn fraint ac yn anrhydedd cael adeiladu ar y gwaith da sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol eisoes. Dyma gyfnod cyffrous iawn i mi ddod i adnabod yr holl ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a staff ar drothwy tymor yr haf.

Dwi wedi bod yn addysgu yn Ninas a Sir Abertawe ers dros pymtheg mlynedd mewn ysgolion bach ac enfawr eu maint a'r diweddaraf fel uwch arweinydd a dirprwy bennaeth. Allwedd ysgol hapus lwyddiannus yw cydweithio a pharchu'n gilydd. Fel mam i ddau o blant, gwn ein bod ni yn dymuno'r gorau i'n plant. Rwy'n ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb sydd gan y staff a minnau i sicrhau bod y safon uchaf o addysgu, dysgu ac ymddygiad yn cael eu cyflawni yn Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach. Mae gennym dîm ymroddedig a phlant brwdfrydig yma, ac rwy'n awyddus i ddod i'w hadnabod ac ymgartrefu yma'n sydyn fel pennaeth newydd.

Fel ysgol, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agos â chi rieni a gofalwyr er mwyn sicrhau bod eich plant yn cael y profiadau cyfoethog fydd yn sail gadarn i'w datblygiad fel dysgwyr chwilfrydig. Yn Bennaeth newydd byddaf yn awyddus i wybod ac i wrando ar eich syniadau ac awgrymiadau adeiladol, a bydd cyfle i chi wneud hynny yn fuan pan wnaf rannu dolen i arolwg penodol. Fel addysgwyr allweddol ym mywydau eich plant, teimlaf ei bod yn bwysig bod gennych lais a'n bod ni fel ysgol yn cynnig polisi drws agored, ac yn neilltuo amser i wrando ar eich pryderon neu leisio barn.

I gloi, hoffwn eich sicrhau, fel Pennaeth, y byddaf yn ymdrechu i sicrhau y caiff eich plant bob cyfle i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus wrth iddynt dderbyn yr addysg orau fel rhan o deulu Y Login Fach. Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod yn y dyddiau a'r wythnosau nesaf. Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Yn ddiffuant,

Mrs Katrin Parkhouse

Pennaeth

# Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

**Heol Roseland, Waunarlwydd, Abertawe, SA5 4ST**

Ffôn / Tel: **01792 874399**
E-bost / E-mail: **ygg.loginfach@swansea-edunet.gov.uk**
Gwefan / Website: **www. www.yloginfach.co.uk**
Trydar / Twitter: **@LoginFach**


17/4/23

Dear Parent / Guardian,

I am delighted to present my first letter to you as the new Head teacher of Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach. It will be a privilege and honour to build upon the good work that is already taking place at the school. It is also a very exciting time for me to get to know all the pupils, parents, carers and staff at the beginning of the summer term.

I have taught in the City and County of Swansea for over fifteen years in small village and vast town schools and in my previous school as a senior leader and deputy headteacher. The essential key to a successful and happy school is teamwork and respect. As a mother of two children, I know that we all want the very best for our children. I am very much aware of the responsibility that the staff and I have in ensuring that the highest standard of teaching, learning and behaviour is achieved at Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach. We have a committed teaching team and enthusiastic children of which I'm extremely eager to get to know and settle quickly into my new role as a team member and the new Head teacher.

As a school, we will be working in close partnership with parents and guardians to ensure that your children receive enriching experiences which will form a foundation in creating inquisitive learners. As a new Headteacher I will be eager to share and listen to your constructive ideas and suggestions and you'll soon have the opportunity to do so in a link to a specific parent survey. As key educators in your children's lives, I feel that it is important that you have a voice and that as a school we offer an open-door policy, are approachable and allocate time to listen to your concerns and opinions.

To conclude, I would like to reassure you that as Headteacher, I will strive to ensure that each child has every opportunity to develop as a confident learner as they receive the best education as a member of Y Login Fach's family. I look forward to meeting you in the coming days and weeks. Thank you for your continued support.

Yours faithfully,

Mrs Katrin Parkhouse

Headteacher